



## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Dyfarwyd Gradd 1 i'r Ysgol Gymraeg ym mhob un o'r saith Cwestiwn Allweddol – Estyn 2009**

*Ysgol Gymraeg was awarded Grade 1 in each of the seven Key Questions – Estyn 2009*

### **Cyrraedd yr ysgol yn brydlon – Atgoffir rhieni / gwarcheidwaid bod angen cyrraedd yr ysgol ar amser!**

Data'r wythnos hon;

Dydd Llun – 41 yn hwyr (ar ôl 9 o'r gloch)

Dydd Mawrth – 37 yn hwyr

Dydd Mercher – 31 yn hwyr

Dydd Iau – 40 yn hwyr

Gofynnir i'r rhai sy'n cyrraedd yn hwyr yn gyson i wneud ymdrech arbennig i wella prydlondeb!

### **Casglu plant o'r ysgol**

Ar ddiwedd y dydd gofynnir yn garedig i rieni / gwarcheidwaid i aros tu allan i gât yr ysgol ac aros i'w plant gael eu rhyddhau gan yr athrawon dosbarth. Yn ddiweddar mae nifer o rieni / gwarcheidwaid yn eistedd tu fewn i brif fynedfa'r ysgol ac fel canlyniad mae'n anodd i rieni sydd tu allan i'r gât weld y disgyblion sydd yn sefyll gyda'r athrawon.

Rhieni / gwarcheidwaid Meithrin i fynd i iard y Meithrin am 3.15 er mwyn casglu'r plant am 3.20

Rhieni / gwarcheidwaid y dosbarth derbyn Miss Gwenan Morgan i fynd i iard y Meithrin erbyn 3.15 ar gyfer casglu'r plant am 3.20.

Rhieni / gwarcheidwaid y dosbarth Derbyn Miss Sioned Jones i aros tu allan i'r gât ac i aros yno tan fod y plant yn cael eu rhyddhau am 3.20.

Rhieni / Gwarcheidwaid Blynnyddoedd 1 i 6 i aros tu allan i'r gât / ffens ac i gasglu'r plant yn brydlon am 3.30.

Rwy'n ymwybodol fod nifer fawr o bobl a phlant yn yr ardal yn ystod y cyfnod ar ddiwedd y dydd ond rwy'n gofyn am gydweithrediad pawb gyda'r mater hwn.

**Tâl aelodaeth yr Urdd (Bl 1 – 6)– Cynllun Rhodd Cymorth** - Os ydych wedi ymuno â'r Urdd eleni gofynnir yn garedig i chwi lenwi eich manylion ar yr amlen â ddisbarthwyd – Rwy'n ymwybodol bod nifer wedi talu yn barod ac felly gallwch ddychwelyd yr amlen yn wag i'r ysgol. Os nad ydych wedi gwneud yna gallwch roi eich tâl aelodaeth yn yr amlen – Mi fydd angen i'r Urdd dderbyn yr amlen er mwyn hawlio rhodd cymorth ar gyfer y mudiad.

### **Ysgol Gymraeg Aberystwyth - Yn dathlu 70 mlynedd o addysg Gymraeg**

**Dydd Gwener Medi'r 25ain**

**Prynhawn Agored – Croeso cynnes i ymwelwyr, cyn ddisgyblion, rhieni, staff a chyfeillion i ymweld â'r ysgol yn ystod y prynhawn 1.00 – 3.30**

**Mi fydd lluniaeth ysgafn a chyfle i gymdeithasu ar ôl ysgol yn y neuadd 3.30 – 5 o'r gloch**

**Mae croeso i ddisgyblion a staff i wisgo yng ngwisg y cyfnod yn ystod y dydd (1939)**

**Croeso cynnes i bawb!**



## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Dyfarwyd Gradd 1 i'r Ysgol Gymraeg ym mhob un o'r saith Cwestiwn Allweddol – Estyn 2009**

*Ysgol Gymraeg was awarded Grade 1 in each of the seven Key Questions – Estyn 2009*

### **Arriving at school on time – Parents / guardians are reminded that pupils need to arrive at school on time.**

This week's data;

Monday – 41 pupils arrive late (after 9 o'clock)

Tuesday - 37 late

Wednesday - 31 late

Thursday - 40 late

Those who regularly arrive late are asked to make a special effort to improve punctuality

### **Collecting children from school**

Parents and guardians are kindly asked to stand outside the gate and wait for their children to be released by the class teachers. Recently many parents / guardians have been sitting inside the main gate and as a result making it very difficult for other parents guardians who are standing outside the gate / fence to see their children that are standing with their teachers.

Parents / guardians from the Nursery class should go to the Nursery yard at 3.15 in order to collect children at 3.20.

Parents / guardians of Reception class Miss Gwenan Morgan to go to the Nursery Yard by 3.15 in order to collect children at 3.20

Parents / guardians of Reception class, Miss Sioned Jones to stand outside the gate and wait for children to be released at 3.20

Parents and guardians of children in Years 1 to 6 should wait outside the gate / fence and collect pupils promptly at 3.30

I am well aware that this is a very busy period but I do ask for your full cooperation with this issue.

**Urdd Membership (Yrs 1 – 6) Gift Aid Scheme** – If you have joined the Urdd this year then you are kindly asked to complete the details on the envelope that has been distributed. I am aware that many have already paid and therefore you can return the envelope to school empty. If you have not yet joined then you can place your membership fee in the envelope provided. The Urdd will need to receive the details provided on the envelope in order to claim gift aid.

### ***Ysgol Gymraeg Aberystwyth - Celebrating 70 years of Welsh education***

***Friday, September 25<sup>th</sup>***

***Open Afternoon – A warm welcome is extended to visitors, former pupils, parents, staff and friends to visit the school during the afternoon 1.00 – 3.30pm***

***There will be an opportunity to socialise after school in the hall from 3.30 – 5.00 - light refreshments will be available.***

***Pupils and staff will be given the opportunity to dress in period costume during the day (1939)***

***Everyone is welcome***

Gwefan  
www.ysgolgymraeg.com



e-bost  
prif@ysgolgyraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg  
**Aberystwyth**

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Dyfarwnyd Gradd 1 i'r Ysgol Gymraeg ym mhob un o'r saith Cwestiwn Allweddol – Estyn 2009**

*Ysgol Gymraeg was awarded Grade 1 in each of the seven Key Questions – Estyn 2009*

***R C Williams, Pennaeth 10/09/09***